## P-03-188 - Uned Gofal Arbennig i Fabanod

## Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr.

Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon.

Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-188.htm

**Cynigiwyd gan:** Zoe Walters

**Nifer y deisebwyr:** 2340

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009, 5 Mai 2009, 9 Mehefin 2009, 22 Medi 2009, 10 Tachwedd 2009, 23 Mawrth 2010 a'r 13 Gorffennaf 2010.

**Y diweddaraf:** Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei hystyried.